

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 12fed Chwefror, 2019 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd

PRESENNOL

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd) Lynford Thomas, Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harri Williams, Daniel Evans, Lyn Williams, Glyn Davies. Owen Llywelyn

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng Alan Henson

2. PERSONOL

i. Croesawyd y Cyng. Harry Williams i'r cyfarfod yn dilyn cyfnod hir yn yr ysbyty.

3. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 11eg Rhagfyr, 2018 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Johnny Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Hywel Ifans.

4. DATGELU BUDDION PERSONOL

Yn dilyn cyfarfod gyda Swyddog Monitro Ceredigion (Clerc 28/1/2019) a sesiwn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad (Clerc a'r Cyng. Lynford Thomas 4/2/2019) **penderfynwyd** cynnal sesiwn hyfforddiant mewnol yn y cyfarfod nesaf.

5. MATERION YN CODI

8.1 Llyfrau Llafar Cymru Mae 6 pherson yn yr ardal yn derbyn y llyfrau. **Penderfynwyd** rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth yn yr hysbysfyrdau.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith dros y ddeufis diwethaf yn cynnwys mynychu digwyddiadau lleol – Eisteddfod Dihewyd a Ffair Sant Silin. Soniodd hefyd am Ymgynghoriad Ysgol Ardal Felinfach ac anogodd pob un o'r cynghorwyr i ymateb.

7. CYLLID

i. Cafwyd adroddiad bras o'r sefyllfa bresennol gydag amcangyfrif o'r gwariant hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol:

£5037 yn y banc ar ddiwedd Rhagyr 2018. Costau i fynd mas:

£20 Eisteddfod Pantyfedwen £1240 Cyflogau Clerc a gofalwyr £200 Costau Clerc

£100 Neuaddau £225 Grant Thornton

Amcangyfrif o'r balans hyd ddiwedd Mawrth 2019, £3252

ii. Ceisiadau ariannol a dderbyniwyd (i'w trafod ym mis Mehefin):

- a. Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2020
- b. Eisteddfod Llangollen

- c. Teenage Cancer Trust
- ch. Treialon Cwn Defaid Rhyngwladol 2020 Tregaron
- d. Apêl Pwyllgor Lleol Eisteddfod Tregaron 2020

8. GOHEBIAETH

i. Derbyniwyd e-bost gan **Delyth Morgan, Clerc Cyngor Cymuned Nantcwnlle** am fater a godwyd yn eu cyfarfod nhw, am dyllau ar yr hewl ger Lodj Llanllŷr. Trosglwyddwyd y neges gan fod y darn yma o'r hewl yn etholaeth Llanfihangel Ystrad. Cysylltodd y Cynghorydd Lynford Thomas a'r Clerc ag Adran y Priffyrdd, ac y mae'r gwaith wedi ei gwblhau.

ii. Derbyniwyd e-bost gan **Iona Jones-Kenny** yn cyflwyno ei hun fel PCSO newydd yr ardal ac yn cynnig dod i un o'n cyfarfodydd. Mae'r Clerc wedi anfon rhestr o ddyddiadau'r cyfarfodydd ati ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu i un o'n cyfarfodydd cyn bo hir.

iii. **Porth y Gymuned** Derbyniwyd gwybodaeth am y gwasanaeth hwn gan Enfys James, Cydlynnydd Cymunedol Porth y Gymuned y Cyngor Sir. **Penderfynwyd** ei gwahodd i gyfarfod mis Ebrill i drafod y cyfleoedd sydd ar gael i gydweithio er budd y gymuned.

iv. **Un Llais Cymru.** Derbyniwyd e-bost yn ein gwahodd i ymaelodi ag Un Llais Cymru ac yn nodi buddion y gwasanaeth. Cynigiwyd y dylid ail-ymaelodi gan Y Cyng. Harry Williams ac eiliwyd gan Y Cyng. Owen Llywelyn a **derbyniwyd** yn unfrydol.

v. **Bwrdd Llywdraethol Ysgol Dihewyd.** Derbyniwyd hysbysiad gan Gyngor Ceredigion yn nodi bod cyfnod Y Cyng. Gerwyn Owen ar y bwrdd yn dod i ben. **Ail-etholwyd** Y Cyng. Owen i'r bwrdd yn unfrydol.

9. CYNLLUNIO

i. **A181054** Cais Rosemount Cribyn. Codi estyniad a dymchwel siec i greu annexe – cymeradwywyd gydag amodau

ii. **A181211 Felinfach Codi 9 tŷ (2 fforddiadwy) ger Pren Cwm, Felinfach SA48 7PG**

Yn dilyn trafodaeth gynhywsfawr cyflwynwyd dau gynnig:

- a. Rhoddwyd cynnig gerbron gan y Cyng. Glyn Davies i gefnogi'r cais gan nodi sylwadau. Eiliwyd gan Y Cyng. Gerwyn Owen.
- b. Rhoddwyd cynnig arall gerbron gan y Cyng. Owen Llywelyn i wrthod y cais. Eiliwyd gan Y Cyng. Daniel Evans.

Pleidlais ar cynnig (a); 5 yn cefnogi 2 yn gwrthywnebu gyda'r Cyng. Lynford Thomas a Harry Williams yn ymatal eu pleidleisiau,

Pleidlais ar gynnig (b); 2 yn cefnogi 5 yn gwrthwynebu gyda'r Cyng. Lynford Thomas a Harry Williams yn ymatal eu pleidleisiau,

Penderfynwyd derbyn cynnig (a) a chefnogi'r cais gan nodi'r sylwadau isod i'r pwyllgor cynllunio roi ystyriaeth iddynt:-

- Y perygl i yrrwyr a allai godi o agor 6 mynedfa newydd o gofio bod yna mynedfeydd gyferbyn â'r datblygiad newydd eisoes, yn ogystal â cheir sydd hefyd yn parco ar ochr yr hewl.
- Gan fod caniatâd eisoes yn bodoli am 9 tŷ ar safle'r mart yn Ystrad a bod cynnig am 9 o dai ychwanegol yn y cais hwn, codwyd y cwestiwn ynglŷn â pha dystiolaeth sydd ar gael am yr angen yn lleol am y datblygiad hwn.
- Y system garffosiaeth; gan fod problemau hanesyddol yn bodoli gyda'r system yn y cyffuniau sydd wedi achosi trafferthion yn ddiweddar.
- Nodir ar y cynllun "Future Estate Road". Codwyd pryderon ynglŷn â datblygiadau pellach o gofio nifer y tai sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Datblygu ar gyfer y darn o dir dan sylw.

10. UNRHYW FATER ARALL

i. Nododd y Cyng. Gerwyn Owen bod Ysgol Dihewyd wedi cael adroddiad da yn dilyn arolwg diweddar gan Estyn. Roedd pawb yn ymfalchïo yn y llwyddiant.

ii. **Ymgynghoriad Ad-drefnu Ysgolion.** I ategu neges Y Cyng. Lynford Thomas i bob aelod ymateb i'r ymgynghoriad, cynigiodd y Cyng. Hywel Ifans y dylid hefyd anfon sylwadau cyfunol fel Cyngor Cymuned. Derbyniwyd yn unfrydol a **penderfynwyd** ei ychwanegu i'w drafod at Agenda mis Mawrth.

iii. **Hewl Rhydyfran tuag at Gribyn.** Tynnodd Y Cyng. Gerwyn Owen sylw at gyflwr gwael yr hewl hon, ac o gofio fod yna ddau fusnes llwyddiannus ar yr hewl – Treberfedd a Penlon - **penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd i bwysleisio'r pwysigrwydd o flaenoriaethu'r gwaith o roi wyneb newydd ar yr hewl hon.

iv. **Pafin Dihewyd. Penderfynwyd** cysylltu eto ag Adran y Priffyrdd i ofyn am gyanlyniad yr ymweliad â Gwelmor.

v. **Arwydd Rhydd.** Dywedodd Y Cyng. Gerwyn Owen bod arwydd "*Road Narrows*" ar Rhydybont, Dihewyd yn rhydd ac yn beryglus pan mae'n wyntog. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd i ofyn iddynt ei ail-glampo a'i wneud yn ddiogel.

vi. **Dŵr.** Tynnodd Y Cyng. Hywel Ifans sylw at broblem dŵr sy'n cronni ar yr hewl ger Soar Cottage, Dihewyd. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd.

vii. Diolchodd Y Cyng. Harry Williams i bawb am eu cefnogaeth trwy ymweliadau a chardiau tra yn yr ysbyty.

viii. **Cino'r Cadeirydd.** Penderfynwyd ar y dyddiad sef 22ain Mawrth a dewis y Cadeirydd 'leni yw Castle Green, Llanbed. Bydd y Clerc yn 'neud y trefniadau anghenrheidiol.

11. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 12fed Mawrth, 2019 yn Neuadd Felinfach